Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Adroddiad: CLA(4)-04-12 : 5 Mawrth 2012**

**Mae'r Pwyllgor yn cyflwyno'r adroddiad a ganlyn i'r Cynulliad:**

**Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3**

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol**

**CLA96 – Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012**
**Gweithdrefn:** Negyddol.
**Fe'u gwnaed:** 8 Chwefror 2012.
**Fe'u gosodwyd:** 13 Chwefror 2012.
**Yn dod i rym:** 6 Mawrth 2012

**CLA97 – Rheoliadau Mesur Addysg (Cymru) 2009 (Treialu) 2012**
**Gweithdrefn:** Negyddol.
**Fe'u gwnaed:** 8 Chwefror 2012.
**Fe'u gosodwyd:** 13 Chwefror 2012.
**Yn dod i rym:** 6 Mawrth 2012

**CLA98 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Taliadau Gohiriedig) (Cymru) 2012**
**Gweithdrefn:** Negyddol.
**Fe'u gwnaed:** 20 Chwefror 2012.
**Fe'u gosodwyd:** 23 Chwefror 2012.
**Yn dod i rym:** 16 Mawrth 2012

**CLA99 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2012**
**Gweithdrefn:** Negyddol.
**Fe'u gwnaed:** 20 Chwefror 2012.
**Fe'u gosodwyd:** 23 Chwefror 2012.
**Yn dod i rym:** 16 Mawrth 2012

**CLA100 – Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) 2012**
**Gweithdrefn:** Negyddol.
**Fe'i gwnaed:** 20 Chwefror 2012.
**Fe'i gosodwyd:** 23 Chwefror 2012.

**Yn dod i rym:** 16 Mawrth 2012

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

Dim

**Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3**

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol**

Dim

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

Dim

**Busnes Arall**

**Gohebiaeth y Pwyllgor**

**Canllawiau Llywodraeth Cymru ar ddewis y weithdrefn gadarnhaol neu negyddol mewn is-ddeddfwriaeth**

Nododd y Pwyllgor ymateb y Cwnsler Cyffredinol dyddiedig 28 Chwefror 2012 i lythyr y Cadeirydd dyddiedig 16 Chwefror 2012 ynghylch cyhoeddi canllawiau Llywodraeth Cymru ar ddewis y weithdrefn gadarnhaol neu negyddol mewn is-ddeddfwriaeth. Cytunodd y Pwyllgor i adolygu sut y mae'r canllawiau'n gweithio yng ngoleuni'r profiad o graffu ar Filiau'r Cynulliad ymhen oddeutu 18 mis.

**Gorchymyn Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2012**

Cafodd y Pwyllgor drafodaeth ragarweiniol ar Orchymyn Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2012, a chytunodd i wahodd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd a'r Pwyllgor Menter a Busnes i ystyried y Gorchymyn o safbwynt polisi.

**Ymchwiliadau'r Pwyllgor: Ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru**

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan yr Athro John Williams o Adran y Gyfraith a Throseddeg, Prifysgol Aberystwyth. Cytunodd yr Athro Williams i ddarparu gwybodaeth ychwanegol am ddosbarthiad swyddi cyntaf graddedigion Cwrs Ymarfer Cyfreithiol Prifysgol Aberystwyth a graddedigion Adran y Gyfraith a Throseddeg ym Mhrifysgol Aberystwyth.

**Penderfyniad i gwrdd yn breifat**

Yn unol â Rheol Sefydlog 17.42 (vi), penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod i drafod y dystiolaeth a gyflwynwyd hyd yn hyn ar gyfer yr ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru, ac i gytuno ar adroddiadau'r Pwyllgor ar yr ymchwiliad i roi pwerau i Weinidogion Cymru yn neddfau'r DU ac ar Fil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru). Bu'r Pwyllgor hefyd yn trafod y dewisiadau o ran cynnal ei gyfarfodydd ar adegau eraill.

**David Melding AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**5 Mawrth 2012**